

Gorlifoedd Storm

Papur briffio

Mawrth 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6574**

E-bost: **Lorna.Scurlock@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](#)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddfriadau mewn amser real](#) | [Diweddfriadau wythnosol a misol](#)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gorlifoedd Storm

Papur briffio

Mawrth 2022

Awdur: Lorna Scurlock

Mae'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn ystyried systemau gorlif storm yng Nghymru; sut maent yn cael eu rheoli, i ba raddau rydym yn eu deall, a sut maent yn effeithio ar ansawdd dŵr.

Mae'n rhoi cryn dipyn o sylw i'r gwahaniaeth rhwng dyletswyddau cyfreithiol Cymru a Lloegr. Cyflwynodd **Deddf yr Amgylchedd 2021** ddarpariaethau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i leihau gollyngiadau o systemau gorlif storm. Cafodd gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau'n gymwys i ymgymmerwyr carthffosiaeth sy'n gweithredu yn Lloegr yn unig, ac nid oes darpariaethau cyfatebol mewn perthynas â Chymru.



Cynnwys

1. Cefndir.....	1
Y cyd-destun deddfwriaethol	1
Rheoli adnoddau dŵr.....	1
Rheoli ansawdd dŵr.....	1
Systemau gorlif storm cyfun	1
2. Deddf yr Amgylchedd	3
Lleihau effaith systemau gorlif storm.....	3
Ymchwilio i effaith systemau gorlif storm	4
3. Systemau gorlif storm yng Nghymru.....	5
Trwyddedau ar gyfer systemau gorlif storm.....	5
Darparu data dibynadwy	6
Data gollyngiadau amser real.....	7
Datblygu cynllun ar gyfer systemau gorlif storm	7
Rheoli risgiau i'r rhwydwaith carthffosiaeth.....	8
4. Materion ehangach o ran ansawdd dŵr.....	9

1. Cefndir

Y cyd-destun deddfwriaethol

Rheoli adnoddau dŵr

Mae **Deddf Diwydiant Dŵr 1991** (fel y'i diwygiwyd gan **Ddeddf Diwydiant Dŵr 1999** a **Deddf Dŵr 2003**) yn nodi'r fframweithiau rheoleiddio, cystadleuaeth a chynrychiolaeth defnyddwyr ar gyfer y sector dŵr.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer rheoleiddio'r gwaith o reoli adnoddau dŵr, tynnu a chronni; a safonau ansawdd dŵr a rheoli llygredd.

Mae papur y Gwasanaeth Ymchwil, sef **Y Diwydiant Dŵr yng Nghymru**, yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r sector, gan gynnwys y setliad datganoli a chwmnïau dŵr yng Nghymru.

Rheoli ansawdd dŵr

Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cymru a Lloegr) 2017 yw'r prif fecanwaith ar gyfer asesu a rheoli'r amgylchedd dŵr. Maent yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i atal dirywiad pob corff dŵr a sicrhau eu bod yn cyrraedd statws da erbyn 2027.

Drwy gylch chwe blynedd o **waith cynllunio basnau afonydd**, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn paratoi **Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd** ar gyfer pob un o'r tair ardal basn afon yng Nghymru (Gorllewin Cymru, Dyfrdwy a Hafren).

Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar ansawdd dŵr, yn pennu amcanion amgylcheddol ac yn gweithredu rhaglen o fesurau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Bydd y cylch nesaf o gynlluniau yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2027. Cynhaliwyd **ymgyngoriad ynghylch y rhain yn 2019**, ond nid oes dim cynlluniau terfynol wedi'u cyhoeddi eto.

Systemau gorlif storm cyfun

Mae carthffosydd cyfun yn casglu **carthion a dŵr ffo** o ddraeniau a chwteri. Mae'r dŵr gwastraff hwn yn cael ei gludo i waith trin lle caiff ei lanhau a'i ddychwelyd i'r amgylchedd.

Mae gan bob system garthffosydd uchafswm o ddŵr gwastraff y gall ei dderbyn. Yn ystod glaw trwm, os oes mwy o ddŵr nag y gall y system ymdopi ag ef, caiff ei

ryddhau mewn mannau sy'n cael eu galw'n '**Orlifoedd Storm**' y cyfeirir atynt yn aml fel 'Draeniau Carthffosydd Cyfun' neu 'Systemau Gorlif Storm Cyfun'.

Dyma eglurhad Dŵr Cymru:

Heb y pwyntiau rhyddhau yma, byddai'r system garthffosiaeth yn gorlenwi ac yn achosi llifogydd carthion mewn adeiladau ac ar strydoedd a phrifffyrdd - neu'n waeth byth yn achosi i doiledau orlifo y tu fewn i eiddo.

Mae'r [fideo hwn gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr](#) yn rhoi trosolwg byr o Systemau Gorlif Storm Cyfun a sut maent yn effeithio ar ein hafonydd. Mae pryderon ynghylch effaith bosibl Systemau Gorlif Storm Cyfun. I grynhoi, gallant:

- niwedio iechyd afonydd – atal **statws ecolegol da** drwy beri i ansawdd dŵr afonydd waethygu;
- niwedio iechyd y cyhoedd – atal pobl rhag defnyddio afonydd yn ddiogel at ddibenion hamdden; a gallant gael
- effaith gymdeithasol oherwydd pryder y cyhoedd.

Mae tystiolaeth gan Hafren Dyfrdwy (cwmni dŵr sy'n cynnwys rhannau o ganolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru) yn egluro eu bod yn credu bod nifer o ffactorau yn gyfrifol am y ffaith bod systemau carthffosiaeth yn cael eu gorwytho'n amlach, gan arwaiwn at ollyngiadau Systemau Gorlif Storm Cyfun:

- **newid hinsawdd** – bydd digwyddiadau glaw eithafol 30% yn fwy tebygol yn ystod y degawd nesaf (dwysedd a hyd);
- **ymgripiad trefol** – gwelwyd cynnydd mawr mewn ardaloedd anhydraidd mewn ardaloedd trefol. Yn 2015 roedd un o bob pedair gardd flaen wedi'i phalmantu; a
- **chysylltiadau newydd a chamgysylltiadau/cysylltiadau anghyfreithlon** – dŵr wyneb o estyniadau cartrefi, adeiladau newydd, draeniau tir a phrifffyrdd.

Mae **Dŵr Cymru** yn ychwanegu'r canlynol:

- **rhwystrau** a achosir gan eitemau na ellir eu fflysio y mae cwsmeriaid yn eu gwaredu i garthffosydd; a
- **chwyp a dirywiad** y system garthffosiaeth.

Yn ôl **adroddiad Storm Overflow Evidence Project**, a baratowyd ar gyfer **Water UK** os ydym am leihau'r niwed y mae gorlifoedd yn ei achosi:

- rhaid i fwy o ddŵr gwastraff a dŵr glaw a gesglir **gael ei gadw yn y system**; neu
- rhaid lleihau faint o ddŵr glaw sy'n mynd i mewn i garthffosydd.

Mae **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith**, y Senedd wedi ymchwilio'n ddiweddar i'r defnydd o Systemau Gorlif Storm Cyfun yng Nghymru a'u heffaith, ac mae wedi ymgymryd â darn o waith byr ar **ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion**.

Cafodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith dystiolaeth gan **Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd**, a **Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru**, a chynhaliodd **sesiwn tystiolaeth lafar** gyda rhanddeiliaid. Bydd yn cyhoeddi ei adroddiad cyn bo hir.

2. Ddeddf yr Amgylchedd

Cafodd **Ddeddf yr Amgylchedd 2021** ('y Ddeddf') Cydsyniad Brenhinol ar 9 Tachwedd 2021. Mae tua hanner y darpariaethau yn gymwys i Loegr, ond mae **tua hanner** darpariaethau'r Ddeddf yn ymestyn i Gymru ac yn berthnasol iddi.

Mae **Rhan 5** o'r Bil yn ymwneud â dŵr. Mae'n cwmpasu'r canlynol:

- adnoddau dŵr;
- ansawdd dŵr;
- rheoleiddio cwmnïau dŵr a charthffosiaeth;
- prisio tir mewn ardaloedd draenio mewnol.

Lleihau effaith systemau gorlif storm

Roedd gwelliant a gynigiwyd yn ystod **hynt y Ddeddf drwy Dŷ'r Arglwyddi** yn cyflwyno darpariaethau i'r Bil a fyddai wedi'i gwneud yn ofynnol i leihau gollyngiadau carthion o systemau gorlif storm. Cafodd **grym dipyn o sylw yn y cyfryngau**.

Cafodd y gwelliant hwn ei drafod drwy gydol y cyfnodau 'ping pong', ac mae'r manylion llawn ar gael mewn papur ymchwil gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin - **Bil yr Amgylchedd 2021-22: Gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi a'r cyfnodau "ping pong"**.

Mae'r **adran 80 derfynol ('systemau gorlif storm')** y cytunwyd arni yn diwygio **Rhan 4 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991** (gwasanaethau carthffosiaeth). Mae'n ei gwneud yn ofynnol:

- i'r ymgymmerwyr carthffosiaeth sicrhau gostyngiad cynyddol yn effaith andwyol y gollyngiadau o'u systemau gorlif storm;
- i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi cynllun lleihau gollyngiadau o systemau gorlif storm a pharatoi adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran ei weithredu;
- i'r ymgymmerwyr carthffosiaeth gyhoeddi adroddiadau blynyddol mewn perthynas â'u systemau gorlif storm; ac
- i Asiantaeth yr Amgylchedd gyhoeddi adroddiadau blynyddol mewn perthynas â systemau gorlif storm ymgymmerwyr carthffosiaeth.

Mae adran 80 yn cyfeirio'n benodol at **ymgymerwyr carthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl, neu'n rhannol, yn Lloegr**. Er eglurder, yn ystod **dadl ar 8 Tachwedd 2021**, dywedodd Deidre Brock AS (Senedd y DU):

Let me be absolutely clear: this is a devolved area, and the amendment clearly states that it concerns English water companies.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfatebol mewn perthynas â Chymru.

Ymchwilio i effaith systemau gorlif storm

Daeth **Adroddiad Ansawdd Dŵr 2021** (y DU gyfan) gan Surfers Against Sewage i'w casgliad a ganlyn:

In 2020 sewage was pumped into rivers and seas nationwide over 400,000 times, totalling over **3.1 million hours of pollution**.

Daeth **ymchwiliad Pwyllgor Archwilio'r Amgylchedd Tŷ'r Cyffredin i Ansawdd Dŵr mewn Afonydd** i'r casgliad a ganlyn:

Citizen science analysis of water company data suggests that the true number of sewer overflow discharges may be considerably higher than those reported by the water companies to the Environment Agency.

Yn dilyn adroddiadau ar ollyngiadau carthffosydd nas caniateir i afonydd, penderfynodd Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat (y corff sy'n rheoleiddio dŵr) **Iansio 'ymchwiliad eang'** i dros 2,000 o weithfeydd trin carthion.

Mae dau ymchwiliad yn mynd rhagddynt. Un yn Lloegr yn unig (dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd) ac un sydd hefyd yn cynnwys Cymru. Mae **ymchwiliad Ofwat** yn edrych ar bob cwmni dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr, i geisio deall:

... if and how often water companies are breaking the conditions of their environmental permits at their wastewater treatment works.

Mewn **Ilythyr agored**, mae Ofwat yn egluro y bydd yn edrych ar **y modd y mae cwmnïau'n rheoli ac yn adrodd** ar berfformiad eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff, tra bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio i weld a yw cwmnïau (yn Lloegr) **yn cydymffurfio â'r trwyddedau** ar gyfer eu gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

Mewn ymateb i **ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**, dywed **Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cynnal ymchwiliad tebyg yng Nghymru**.

Mae'n esbonio bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru 'ymateb cydymffurfio' ar waith eisoes, gan danlinellu eu bod yn rhannu gwybodaeth gyda chwmnïau dŵr ers 2014 i ddod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio ac hunioni hynny.

Gan gyfeirio at yr ymchwiliadau, mae hefyd yn dweud bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat i benderfynu pa gamau a gynigir yn sgil y canfyddiadau ac os bydd angen cynnal adolygiad, byddant yn cymryd y camau angenrheidiol.

3. Systemau gorlif storm yng Nghymru

Mae amodau hinsawdd Cymru yn wlypach nag ydyw ar gyfartaledd yn y DU a hyn, meddai **Dŵr Cymru** sy'n gyfrifol am y ffaith bod gan Gymru fwy o Systemau Gorlif Storm Cyfun fesul 1,000km o garthffosydd yn y diwydiant – tua 2,500 i gyd.

Trwyddedau ar gyfer systemau gorlif storm

Caiff **amodau trwyddedau** Systemau Gorlif storm Cyfun yng Nghymru eu pennu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Systemau gydymffurfio â safonau dylunio ac ansawdd dŵr a rhaid gofalu nad ydynt yn achosi unrhyw ddirywiad yn ansawdd presennol y dŵr derbyn.

Mae **Afonydd Cymru** yn egluro bod nifer y gollyngiadau a ganiateir o Orlifoedd Storm Cyfun yn dibynnu ar sensitifrwydd amgylcheddol y cwrs dŵr y mae'n cael ei ollwng iddo.

Yng Nghymru, mae **rhagdybiaeth yn erbyn caniatáu** systemau gorlif storm newydd, oni bai eu bod yn rhan o gynllun ehangach sy'n arwain at welliant net mewn ansawdd dŵr.

Er mwyn deall effaith Systemau Gorlif Storm Cyfun, **dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** eu bod wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau dŵr ac Ofwat ers 2012, gan osod cyfarpar i

fonitro digwyddiadau, a'u hyd, ym mhob safle i gofnodi gollyngiadau.

Darparu data dibynadwy

Mae Monitorau Hyd Digwyddiadau yn '**ffordd ddibynadwy a chyson**' o fonitro pa mor aml ac am ba hyd y defnyddir systemau gorlif storm.

Mae Dŵr Cymru yn nodi ei fod wedi buddsoddi £10.5 miliwn i wella'r broses o fonitro Systemau Gorlif Storm Cyfun ers 2015, ac mae **monitor gollyngiadau ar bron 99 y cant o Systemau Gorlif Storm Cyfun i gofnodi nifer a hyd gollyngiadau**. Dywed **Hafren Dyfrdwy** fod pob un o'i 50 safle lle mae System Gorlif Storm Cyfun yn cael eu monitro'n electronig.

Caiff data Monitro Hyd Digwyddiadau eu rhannu'n flynyddol â Chyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ac maent ar gael i'r cyhoedd gan y ddau gwmni dŵr yng Nghymru – **Dŵr Cymru** a **Hafren Dyfrdwy**.

Mae nifer y gollyngiadau a gofnodir bob blwyddyn a nifer y gorlifoedd a ganiateir yng Nghymru lle mae monitor wedi'i osod, ar gael gan **Cyfoeth Naturiol Cymru** fel y gwelir isod.

	2016	2017	2018	2019	2020
No. of spills recorded by EDM	14,485	29,878	48,499	73,517	105,751
Number of storm overflows with EDM installed	545	983	1359	1665	2041

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn nodi bod y cynnydd mewn gollyngiadau bob blwyddyn i'w briodoli i'r ffaith bod mwy o fonitorau'n cael eu gosod ac, o ganlyniad, mae mwy o ddata ar gael.

Mae **Syr David Henshaw o Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud** bod gwybodaeth a rennir gan y cwmnïau dŵr yn cael ei defnyddio i ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio ag amodau trwydded, ac unioni hyn os oes modd, ac i ddatblygu cynlluniau i sicrhau bod y safleoedd hynny'n cydymffurfio eto cyn gynted â phosibl.

Data gollyngiadau amser real

Mae **Adran 81 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021** yn ei gwneud yn ofynnol i ymgymmerwyr carthffosiaeth gyflwyno adroddiad ar olyngiadau o systemau gorlif storm cyn pen awr ar ôl i'r gollyngiad ddechrau. Fodd bynnag, mae hyn eto'n berthnasol i ymgymmerwr carthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr h.y. nid yw'n berthnasol i gwmniâu dŵr Cymru.

Mae **Dŵr Cymru** yn darparu gwasanaeth gwirfoddol sy'n rhoi rhybudd bod y system gorlif storm yn gweithredu, a hynny drwy gydol y flwyddyn mewn 30 o safleoedd ymdrochi, gan roi gwybodaeth amser real ynghylch pryd mae'r systemau'n dechrau gweithredu a phryd y maent yn dod i ben.

Mae'r data amser real hyn ar gael drwy'r ap **Gwasanaeth Moroedd ac Afonydd Mwy Diogel**, sy'n rhybuddio defnyddwyr dŵr pan fydd gorlifoedd carthffosydd yn gollwng carthion dynol heb eu trin i'r môr a phan fydd ansawdd dŵr yn gwaethyg u dros dro oherwydd glaw trwm a digwyddiadau llygredd.

Datblygu cynllun ar gyfer systemau gorlif storm

Ym mis Mehefin 2021, ffurfiodd Cyfoeth Naturiol Cymru, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Ofwat a'r ddau gwmni dŵr, **dasglu gorlifoedd**. Mae'r aelodaeth wedi ehangu yn ddiweddar i gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Afonydd Cymru.

Yr enw ar y tasglu yw tasglu Gwell Ansawdd Dŵr Afonydd Cymru a'i nod yw datblygu **argymhellion sy'n** mynd i'r afael ag effeithiau gollyngiadau storm ar afonydd Cymru, ac yna rhoi **cynllun gweithredu** ar waith i ddatblygu'r gwaith gofynnol. **Dyma esboniad Ofwat:**

Mae'r tasglu wedi archwilio'r heriau rheoleiddio a chynllunio y mae'r sector yn eu hwynебу ac wedi edrych ar y gwelliannau posibl a allai fod yn angenrheidiol gan gynnwys gwelliannau y tu hwnt i'r rhagleni gwaith a'r camau rheoleiddiol presennol.

Mae **prosiect tebyg** wedi'i sefydlu ar gyfer Lloegr.

Dywed **Hafren Dyfrdwy** y bydd cynllun gorlifau storm yn cael ei ddatblygu ac y bydd yn rhan o uchelgais ehangach i wella ansawdd dŵr afonydd yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Yn ôl **Dŵr Cymru**, nod y cynllun yw sicrhau bod Systemau Gorlif Storm Cyfun yn cael eu "deall a'u gwella, a'u bod yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif a'r heriau a wynebwn".

Rheoli risgiau i'r rhwydwaith carthffosiaeth

Mae cwmnïau dŵr yn gyfrifol (**Rhan 4 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991**) am sicrhau bod dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn cael ei ddraenio'n effeithiol. Mae hyn yn bwysig wrth **reoli perygl llifogydd dŵr wyneb**, a'r risgau cysylltiedig â gorlwytho'r rhwydwaith carthffosiaeth sy'n arwain at ollyngiadau storm.

Dywed **Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd**, y caiff y **Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff** anstatudol cyntaf eu cyhoeddi gan gwmnïau dŵr yn 2022, a bydd y rhain:

...yn amlinellu cynllun tymor hir a thymor byr i leihau'r gollyngiadau o ddraeniau storm cyfunol ac unrhyw niwed amgylcheddol ganddynt. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau gwell ar gyfer trin carthion, capaciti uwch ar gyfer storio a ffyrdd naturiol, ecogyfeillgar o leihau faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r system garthffosiaeth.

Drwy ddatblygu ei Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, dywed **Dŵr Cymru** ei fod yn ystyried "gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i leihau'r perygl o lifogydd a'n heffaith ar yr amgylchedd rhwng nawr a 2050."

Dywed y **Gweinidog** y bydd y cynlluniau'n cael eu gwneud yn statudol "yn ystod tymor y Senedd hon" gan ddefnyddio pwerau sy'n deillio o **Adran 79** o Ddeddf yr Amgylchedd 2021, a bydd yn "ymgyngħori ynghylch rheoliadau sy'n amlinellu ffurf a chynnwys y cynlluniau hyn".

Mae'r Gweinidog hefyd **yn tanlinellu** y dylid dod o hyd i atebion sy'n seiliedig ar natur i ddargyfeirio dŵr oddi wrth systemau carthffosiaeth drwy ddulliau rheoli dalgylch. Mae'n tynnu sylw at y camau a gymerwyd eisoes i ddatblygu **systemau draenio cynaliadwy**, a'r **ymrwymiad pellach i ddeddfu i gryfhau'r gofynion hyn** yn ystod tymor y Senedd hon. <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cyhoeddiad-newydd-y-sector-dofednod/>

Mae'r dulliau hyn yn gweithio i leddfu'r pwysau ar y system garthffosiaeth drwy ddargyfeirio ac arafu'r dŵr sy'n llofo iddi. Mae **Dŵr Cymru** yn tynnu sylw at y buddsoddiad mewn cynlluniau ôl-osod systemau draenio cynaliadwy **Grangetown Werddach, a ClawLif**. Mae wedi:

...[b]uddsoddi £115 miliwn ... rhwng 2012 a 2020, gan osod tua 14 milltir o bibellwaith a systemau draenio cyrb newydd, adeiladu twnnel newydd ychydig o dan filltir o hyd dan ddaear i greu carthffosydd dŵr glaw a phlannu bron 10,000 o blanhigion a choed mewn pantiau, planwyr a basnau. Yn sgil y prosiect gwelwyd **gostyngiad o 95% yn y swm a rannwyd o orlifiannau**, lleihawyd y perygl o lifogydd ac mae'n atal 1.5 miliwn metr ciwbig arall o ddŵr wyneb y flwyddyn rhag llofo i'r rhwydwaith.

Mae **Hafren Dyfrdwy** yn awgrymu y dylid chwilio'n gyntaf am atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol.

4. Materion ehangach o ran ansawdd dŵr

Mae **Dŵr Cymru** yn tynnu sylw at y ffaith mai Systemau Gorlif Storm Cyfun yw'r rheswm pendant neu'r rheswm tebygol dros fethu sicrhau statws da mewn 4.6 y cant o gyrff dŵr.

Mewn ymateb i **ymholiad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd yr Amgylch a Selwaith** dywedodd **y Gweinidog** ei bod yn hynod bryderus am effaith llygredd ar ansawdd dŵr, a'i bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r achosion. Fodd bynnag, tanlinelloedd nad Systemau Gorlif Storm Cyfun yw'r prif reswm dros ansawdd dŵr gwael yng Nghymru:

... y prif achosion yw dŵr ffo o wastraff anifeiliaid a chemegau a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth, llygredd o fwyngloddiau segur, dŵr ffo o ardaloedd adeiledig, a phibellau carthion wedi'u cysylltu â rhwydweithiau draenio'n anghywir.

Mae'r Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pum ffactor allweddol sy'n atal y 942 corff dŵr yng Nghymru rhag ennill statws da, fel y nodir gan y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd:

- mae 241 o gyrff dŵr yn methu oherwydd addasiadau ffisegol (113 yn gysylltiedig â ffermio ac 16 yn gysylltiedig â choedwigaeth);
- mae 129 o gyrff dŵr yn methu oherwydd llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig - o'r rhain mae 113 yn gysylltiedig â ffermio ac 16 yn gysylltiedig â choedwigaeth;
- mae 101 o gyrff dŵr yn methu oherwydd llygredd trefol;
- mae 74 o gyrff dŵr yn methu oherwydd carthion a dŵr gwastraff;
- mae 60 o gyrff dŵr yn methu oherwydd mwyngloddiau metel segur.

Ym marn **Hafren Dyfrdwy**, er bod angen i gwmniâu dŵr weithredu:

... unless the issue of agricultural pollution is also addressed, health of rivers in Wales are unlikely to improve materially